

Patrwm cyflwyno Rhwng mis Hydref a mis Mehefin
Rhwng mis Chwefror a mis Hydref
Mai i Ionawr

Disgrifiad o'r modiwl

Ydych chi'n newydd i astudiaeth addysg uwch neu'n dychwelyd ar ôl seibiant? Mae'r modiwl Mynediad hwn - sydd wedi'i ddylunio i ddatblygu'r sgiliau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer astudio'n llwyddiannus yn y brifysgol - yn fan cychwyn delfrydol. Mae'n bosibl y byddwch hyd yn oed yn gallu astudio am ddim. Mae'n cyflwyno amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys gwyddoniaeth; peirianeg a dylunio; yr amgylchedd; mathemateg; a chyfrifiadura a TG i'ch paratoi ar gyfer amrywiaeth eang o gymwysterau. Byddwch yn astudio amrywiaeth o bynciau diddorol mewn tri bloc astudio – Bywyd, Dŵr a Chartref. Bydd y modiwl hwn hefyd yn eich cyflwyno'n raddol i gyfrifiadura a dysgu ar-lein; y ffordd berffaith o feithrin y sgiliau astudio y bydd eu hangen arnoch ar gyfer y cam nesaf yn eich astudiaethau.

(D.S. Bydd Bloc 1 mewn print a bydd llyfr yn cael ei ddarparu; bydd Blociau 2 a 3 ar-lein yn llwyr)

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb person gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

Hanfodol

1. Gradd neu gymhwyster cyfatebol, neu gymhwyster proffesiynol neu alwedigaethol yn y maes pwnc rydych am ei addysgu
2. Cymhwyster addysgu
3. Gallu amlwg i gefnogi gwaith dysgu ar draws amrywiaeth eang o bynciau mewn cyd-destun amlddisgyblaethol neu ryngddisgyblaethol, y bydd rhai ohonynt y tu allan i'ch arbenigedd eich hun
4. Profiad o gefnogi gwaith dysgu yn rhagweithiol o bell gan ddefnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau, gan gynnwys tiwtora un i un dros y ffôn, e-bost, Fforymau Grŵp Tiwtor, ystafelloedd ar-lein
5. Gallu amlwg i helpu myfyrwyr i drosglwyddo i waith dysgu ar-lein er mwyn dod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol
6. Yn ddigidol lythrennog ac yn gallu defnyddio systemau a gwefannau'r Brifysgol Agored, gan gynnwys amgylcheddau dysgu rhithwir modiwlau ac adnoddau ar-lein eraill
7. Ymrwymiad i annog a galluogi dysgwyr sy'n oedolion i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau astudio a fydd yn eu paratoi ar gyfer mynediad at addysg uwch
8. Gallu amlwg i gefnogi myfyrwyr ag anghenion cymhleth sy'n dod o gefndiroedd amrywiol (gan gynnwys myfyrwyr ag anabledau, cymwysterau addysgol blaenorol isel, o ardaloedd â lefelau amddifadedd uchel ac sydd wedi bod dan anfantais yn draddodiadol) ac mewn amgylchiadau gwahanol
9. Yn ymarferydd adfyriol ac yn dangos y gallu i ystyried adborth datblygiadol i wella ymarfer ac yn ymgysylltu'n weithredol â chyfleoedd datblygu i'r staff a'r gymuned addysgu ehangach
10. Gallu amlwg i roi adborth adeiladol a chefnogol mewn tiwtorialau ac ar aseiniadau

Dymunol

1. Profiad o gefnogi gwaith dysgu oedolion o bell
2. Cydnabyddiaeth Advance HE neu debyg (e.e. safonau proffesiynol y Sefydliad Addysg a Hyfforddiant)

Gwybodaeth ychwanegol:

Disgwylir i diwtoriaid fod yn rhagweithiol o ran cysylltu â myfyrwyr a darparu tiwtorialau un i un dros y ffôn yn ogystal ag adborth ysgrifenedig ar aseiniadau. Er mai ffocws y tiwtorialau hyn yw datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o ddeunyddiau'r modiwl, mae hefyd yn bwysig mynd i'r afael â'u hanghenion sgiliau astudio unigol a darparu cymorth ysgogol. Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr ddefnyddio fforymau grŵp tiwtor ar gyfer rhai o'u gweithgareddau ar y modiwl, a bydd disgwyl i diwtoriaid fynd ati'n rhagweithiol i sefydlu'r rhain, annog y myfyrwyr i'w defnyddio, a'u monitro. Bydd disgwyl i diwtoriaid gynnal rhai sesiynau mewn ystafelloedd ar-lein tuag at ddiwedd y cyflwyniad er mwyn paratoi myfyrwyr ar gyfer tiwtorialau ar-lein mewn modiwlau yn y dyfodol.

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

| | |
|--|----|
| Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus: | 30 |
| Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr: | 4 |
| Dull cyflwyno aseiniadau: | 2 |
| Lefel y gofynion TGCh: | 2 |
| Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol: | 17 |
| Band cyflog: | 7 |
| Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu: | 7 |

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl ychwanegol amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw'n berthnasol.